

Pleidleisio yn 2017

Deall agweddau'r cyhoedd tuag at etholiadau a phleidleisio

Hydref 2017

Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
1 Cyflwyniad: Etholiadau 2017	1
Yr adroddiad hwn	2
Y Comisiwn Etholiadol.....	2
2 Ymgysylltiad: y nifer a bleidleisiodd.....	3
Y nifer a bleidleisiodd yn 2017.....	3
3 Ymgysylltiad: ymwybyddiaeth	11
Lefelau ymwybyddiaeth.....	11
Y gallu i gael gafael ar wybodaeth a ffynonellau gwybodaeth	13
4 Profiad: hyder a boddhad	18
Hyder bod yr etholiadau yn cael eu cynnal yn effeithiol.....	18
Cofrestru.....	19
Pleidleisio	21
5 Casgliadau	28
Ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth.....	28
Y system gofrestru a phleidleisio.....	29
Atodiad A: Methodoleg.....	30
Atodiad B: Etholiadau a gynhaliwyd yn 2017	32

Crynodeb gweithredol

Un o feysydd craidd gwaith y Comisiwn Etholiadol yw gwella hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Er mwyn deall agweddau'r cyhoedd, yn dilyn pob set o etholiadau rydym yn cynnal arolwg o sampl sy'n cynrychioli pobl y wlad yn yr ardaloedd hynny lle y cynhaliwyd etholiadau. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn dadansoddi canlyniadau arolygon ar ôl etholiad a gynhaliwyd yn 2017 ac mae'n rhoi trosolwg o agweddau'r cyhoedd at etholiadau a phleidleisio.

Canfyddiadau allweddol

Yn ystod etholiadau 2017, gwelwyd cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd o gymharu â'r etholiad cyfatebol diwethaf – etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon ac etholiadau cynghorau'r Alban yn bennaf. Hefyd, **ydddengys bod lefel yr ymgysylltiad ymysg grwpiau oedran iau yn etholiad cyffredinol y DU wedi gwella ers 2015** – dengys ein hymchwil y gwelwyd cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd ynghyd â chynnydd yn lefel yr ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o'r etholiad ei hun ac o'r pleidiau a'r ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn yr etholiad.

Er hyn, gwnaethom ganfod **tystiolaeth gref o ddiffyg ymgysylltiad parhaus, yn enwedig ymysg pobl ifanc, gyda'r etholiadau lleol**. Er y gwelwyd cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd yn yr etholiadau hyn, roedd yn gymharol isel o hyd. Gwnaethom holi pobl yn Lloegr lle y cynhaliwyd etholiadau llywodraeth leol p'un a oeddent o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud dewis hyddysg ynghylch pwy i bleidleisio drosto – anghytunodd un rhan o dair o'r holl ymatebwyr, yn cynnwys bron hanner y bobl 18-34 oed. **Rhaid gwneud mwy er mwyn sicrhau bod pob pleidleisiwr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am yr etholiadau hyn a phwy y gallant bleidleisio drostynt, a'u bod yn manteisio ar hynny.**

Yn gadarnhaol, rydym wedi canfod eto bod **y rhan fwyaf o bobl o'r farn bod etholiadau yn y DU yn cael eu cynnal yn effeithiol** – gyda hyd yn oed mwy o hyder ymysg y sawl sy'n pleidleisio – a bod y mwyafrif helaeth o bleidleiswyr yn fodlon ar y broses o fwrw eu pleidlais. Fodd bynnag, ni ddylid llaesu dwylo yn y maes hwn ac amlygodd ein hymchwil ym mha feysydd lle rydym o'r farn y mae angen gwneud rhagor o waith.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar y system o gofrestru i bleidleisio **ceir cefnogaeth i welliant, gyda dwy ran o dair yn cefnogi'r syniad y dylai etholwyr gofrestru'n awtomatig pan gânt rif Yswiriant Gwladol**. Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi [ein hasesiad o'r system gofrestru etholiadol](#) gan amlygu sawl maes i'w gwella.

Yn olaf, **mae'r canfyddiad o dwyll etholiadol yn broblem mewn etholiadau yn y DU o hyd**. Er bod y mwyafrif helaeth o'r farn bod pleidleisio'n broses ddiogel ar y cyfan, mae lefel o bryder, er ei bod yn seiliedig ar y sylw a roddir yn y cyfryngau yn fwy nag ar brofiad uniongyrchol. Gwnaethom nodi ein

hargymhelliad ar gyfer cyflwyno gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr ddangos dogfen adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr, gan adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yng Ngogledd Iwerddon. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i dreialu'r gofyniad i bleidleiswyr ddangos dogfen adnabod mewn nifer o etholiadau lleol ym mis Mai 2018, a bydd y Comisiwn yn cynnal ac yn cyhoeddi gwerthusiad llawn, annibynnol o'r treialon hyn erbyn haf 2018.

1 Cyflwyniad: Etholiadau 2017

1.1 Yn 2017, bwriwyd mwy na 44 miliwn o bleidleisiau mewn chwe etholiad gwahanol:

- Etholiadau llywodraeth leol **yn Nghymru, Lloegr a'r Alban**
- Etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol **yn Swydd Gaergrawnt a Peterborough, Manceinion Fwyaf, Dinas-ranbarth Lerpwl, Dyffryn Tees, Gorllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr**
- Etholiad brys Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Etholiad Cyffredinol brys Senedd y DU

1.2 Drwy edrych ar y nifer a bleidleisiodd y gellir gweld ymgysylltiad y cyhoedd ag etholiad gliriaf. Er bod y nifer a bleidleisiodd islaw'r lefelau a welwyd cyn 2000, yn 2017, roedd yn uwch na'r hyn a welwyd yn yr etholiad cyfatebol blaenorol bob tro. Yn achos yr etholiad cyffredinol, roedd y nifer absoliwt o bleidleisiau a fwriwyd ar ei uchaf ers 1992. Nid yw'n amlwg i ba raddau y mae'r cynnydd hwn yn y nifer a bleidleisiodd yn cynrychioli newid parhaus neu a fydd y lefelau yn gostwng eto rywbryd. Roedd 2017 yn anarferol o ran y nifer gyffredinol a bleidleisiodd ac, mewn rhai achosion, natur yr etholiad. Roedd 2017 hefyd yn dilyn dwy flynedd o ddigwyddiadau etholiadol arwyddocaol iawn, yn fwyaf amlwg refferendwm yr UE.

Tabl 1.1: Etholiadau a gynhaliwyd yn 2017

Etholiad	Dyddiad	System bleidleisio¹	Pleidleisiau a fwriwyd	Y nifer a bleidleisiodd
Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon	2 Mawrth	Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	812,783	64.8%
Etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr	4 Mai	System y Cyntaf i'r Felin Pleidlais Atodol	6,518,202	35.1%
Etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol		Pleidlais Atodol	1,895,781	27.8%

¹Defnyddiwyd tair system bleidleisio yn 2017: Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn etholiadau cynghorau'r Alban ac etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon; defnyddiodd etholiadau maerol Awdurdodau Cyfunol y system Pleidlais Atodol; defnyddiodd etholiad cyffredinol y DU ac etholiadau llywodraeth leol Cymru a Lloegr system y Cyntaf i'r Felin.

Etholiadau cynghorau'r Alban		Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy	1,927,149	46.9%
Etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru		System y Cyntaf i'r Felin	895,943	42.0%
Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig	8 Mehefin	System y Cyntaf i'r Felin	32,294,920	69.0%
Cyfanswm y pleidleisiau 2017			44,344,778	

Yr adroddiad hwn

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r etholiadau hyn o safbwynt y sawl a bleidleisiodd ynddynt, yn ogystal â'r rhai a ddewisodd beidio â gwneud hynny. Mae Pennod 2 yn canolbwyntio ar y nifer a bleidleisiodd: pwy a bleidleisiodd ym mhob un o'r etholiadau a pham. Mae Pennod 3 yn cwmpasu faint yr oedd etholwyr o'r farn eu bod yn ei wybod am bob un o'r etholiadau a ble y cawsant wybodaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniad hyddysg ynghylch pwy i bleidleisio drosto. Mae Pennod 4 yn ystyried pa mor hyderus yw'r cyhoedd ynghylch y ffordd y caiff etholiadau eu cynnal yn y DU yn gyffredinol, a pha mor fodlon y maent ag elfennau penodol o'r broses.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig yn bennaf ar ganfyddiadau cyfres o arolygon barn y cyhoedd a gynhaliwyd gan y Comisiwn Etholiad yn 2017. Roedd ein harolygon ar ôl etholiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth, mis Mai a mis Mehefin yn cynnwys cyfanswm o 6,154 o gyfweiliadau. Ceir gwybodaeth am fethodoleg yn Atodiad A.

Y Comisiwn Etholiadol

1.5 Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio er mwyn gwella hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb drwy alluogi'r gwaith o gynnal etholiadau a refferenda rhydd a theg, gan ganolbwyntio ar anghenion yr etholwyr a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid o hyd er mwyn sicrhau bod pob pleidlais yn ddiogel ac yn hygyrch.

1.6 Fel rhan o'r rôl hon, mae'r Comisiwn yn asesu pa mor dda y caiff etholiadau'r DU eu cynnal. Mae adroddiadau ar y broses o weinyddu etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, etholiadau cynghorau'r Alban ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru eisoes wedi'u cyhoeddi.

- [Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, Mawrth 2017: papur briffio](#)
- [Gweinyddu etholiadau cynghorau'r Alban a gynhaliwyd ar 4 Mai 2017](#)
- [Etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru](#)

1.7 Caiff adroddiadau ar y broses o weinyddu etholiadau maerol Awdurdodau Cyfunol ac Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin eu cyhoeddi maes o law. Yn dilyn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar gofrestru etholiadol cyn yr etholiad.

- [Cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017](#)

1.8 Caiff rhagor o adroddiadau yn gysylltiedig ag Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig – ar brofiad yr ymgeiswyr a safodd am swydd yn 2017 ac am hygyrchedd Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ar gyfer pobl ag anabledd – eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

2 Ymgysylltiad: y nifer a bleidleisiodd


Canfyddiadau Allweddol

- Ym mhob etholiad yn 2017, roedd y nifer a bleidleisiodd yn uwch o gymharu â'r etholiad cyfatebol diwethaf, er ei fod yn is yn yr etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ym mis Mai o gymharu â'r etholiadau brys ym mis Mawrth a mis Mehefin.
- Roedd y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau cynghorau'r Alban yn uwch o gymharu â'r etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, roedd yr Albanwyr yn llai tebygol o fod wedi pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig o gymharu â'u cyfatebion mewn rhannau eraill o Brydain Fawr.
- Mae ein hymchwil yn awgrymu bod nifer y bobl ifanc a bleidleisiodd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn 2017 yn llawer uwch o gymharu â 2015; fodd bynnag, gwnaethom ganfod hefyd eu bod yn llawer llai tebygol na grwpiau oedran hŷn o fod wedi pleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol.

Y nifer a bleidleisiodd yn 2017

2.1 Galwyd dau etholiad 'brys' yn 2017 y tu allan i'w cylch arferol: etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon a gynhaliwyd ar 2 Mawrth ac Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig a gynhaliwyd ar 8 Mehefin. Pleidleisiodd 64.8% yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, sef y ganran uchaf ers etholiad cyntaf y

Cynulliad yn 1998, a chynnydd o 10 pwynt canrannol o gymharu ag etholiad blaenorol y Cynulliad ym mis Mai 2016.



2.2 Yn yr un modd ym mis Mehefin, pleidleisiodd 69.0% ledled y DU, sef y ganran uchaf a welwyd mewn etholiad cyffredinol ers 1997 a chynnydd o 2 bwynt canrannol o gymharu â'r nifer a bleidleisiodd yn 2015. Roedd nifer yr etholwyr yn 46.8 miliwn ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, sef y nifer fwyaf erioed ar gyfer digwyddiad pleidleisio ledled y DU, gyda thua 500,000 yn fwy o bobl ar y gofrestr o gymharu ag etholiad cyffredinol 2015.

2.3 Fel arfer, mae'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol yn llawer is nag mewn etholiadau cenedlaethol, ac nid oedd 2017 yn eithriad i hynny. Roedd y nifer a bleidleisiodd ym mis Mai yn llawer is nag ym mis Mawrth a mis Mehefin. Fodd bynnag, roedd yn uwch nag ar gyfer y digwyddiadau pleidleisio blaenorol, yn enwedig yn yr Alban lle roedd y ganran a bleidleisiodd yn 46.9%, sef mwy na 7 pwynt canran yn uwch nag yn etholiadau cynghorau'r Alban yn 2012.

2.4 Fodd bynnag, yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, roedd y nifer a bleidleisiodd yn yr Alban (66.8%) yn is nag yng Nghymru a Lloegr ac yn llawer is nag yn yr Alban yn etholiad cyffredinol y DU yn 2015 (71.1%). Wedi dweud hynny, ar ôl 2015, roedd y nifer a bleidleisiodd yn 2017 yn uwch nag ar gyfer y nifer a bleidleisiodd mewn unrhyw etholiad cyffredinol arall yn yr Alban ers 1997. Yn ddiau, roedd y nifer uchel iawn a bleidleisiodd yn yr Alban yn 2015 yn rhannol o leiaf o ganlyniad i'r cynnydd mewn ymgysylltiad gwleidyddol yn dilyn y refferendwm annibyniaeth a gynhaliwyd ym mis Medi 2014.

Tabl 2.1: Y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU 1997-2017

Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig	Lloegr	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	Y Deyrnas Unedig
2017	69.3%	68.7%	66.8%	65.6%	69.0%
2015	66.2%	65.8%	71.1%	58.4%	66.4%
2010	65.7%	64.9%	63.9%	58.0%	65.3%
2005	61.5%	62.8%	60.9%	63.5%	61.6%
2001	59.4%	61.5%	58.2%	68.6%	59.6%
1997	71.6%	73.7%	71.4%	67.4%	71.6%

Pwy a Bleidleisiodd?

Y nifer a bleidleisiodd a'u hoedran

2.5 Mae ein hymchwil wedi canfod yn gyson bod oedran yn cael effaith sylweddol ar y tebygolrwydd y bydd person wedi cofrestru i bleidleisio, ei agwedd tuag at bleidleisio, a pha mor debygol y mae o fynd i bleidleisio mewn digwyddiad pleidleisio.²

2.6 Er nad yw ein harolygon o farn y cyhoedd wedi'u cynllunio i roi amcangyfrifon swyddogion o'r nifer a bleidleisiodd, mewn cyd-destun perthynol, gellir defnyddio'r canlyniadau i nodi pa grwpiau oedran oedd yn fwy neu'n llai tebygol o fod wedi pleidleisio nag eraill. Gan ategu'r amcangyfrifon a luniwyd gan eraill, mae ein canfyddiadau'n awgrymu ei bod yn debygol bod y nifer o bobl dan 34 oed a bleidleisiodd tua 11 pwynt canran yn uwch yn 2017 o gymharu â 2015, ac roedd nifer y bobl dros 34 oed a bleidleisiodd yn gymharol sefydlog. Felly, roedd y bwch mewn trosiant rhwng y grwpiau oedran yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn 2017 yn llai o gymharu â 2015.


2.7 Yn unol â'r ffaith bod y nifer a bleidleisiodd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn yr Alban yn is na phob man arall yn y DU, mae ein canlyniadau'n awgrymu bod y bwch yn y nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad cyffredinol yn debygol o fod wedi bod yn fwy yn yr Alban o gymharu â

² Y Comisiwn Etholiadol, [The December 201 electoral registers in Great Britain](#) (Gorffennaf 2016)

Chymru a Lloegr. Felly, roedd etholwyr ifanc yn yr Alban yn llai tebygol o fod wedi pleidleisio na'u cyfatebion yng Nghymru a Lloegr.

2.8 Fel y dangosir yn siart 2.2, mae ein canlyniadau hefyd yn dangos bod y bwch yn y nifer a bleidleisiodd rhwng grwpiau oedran iau a hŷn yn debygol o fod yn llawer llai yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig o gymharu â'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai, lle roedd pobl ifanc yn llawer llai tebygol o fod wedi pleidleisio na phobl hŷn.

Siart 2.2: Canran a bleidleisiodd yn 2017 ac amcangyfrif o'r ganran a bleidleisiodd yn ôl oedran



Ffynhonnell: Arolygon ar ôl Etholiadau y Comisiwn Etholiadol (ICM / Kantar TNS)

Caiff yr amcangyfrif o'r ganran a bleidleisiodd ei gyfrifo gan ddefnyddio'r gwahaniaeth yn y ganran a bleidleisiodd a nodwyd rhwng grwpiau oedran mewn perthynas â'r ganran a bleidleisiodd mewn gwirionedd

Pobl a bleidleisiodd am y tro cyntaf

2.9 O'r rhai a ddywedodd iddynt bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin, dywedodd 3% mai dyna oedd y tro cyntaf iddynt bleidleisio mewn unrhyw etholiad neu refferendwm. Dywedodd 18% o bobl 18-24 oed a 5% o bobl 25 i 34 oed mai dyna oedd y tro cyntaf iddynt bleidleisio. Er i 3% o'r bobl 18-24 oed ddweud bod hyn am nad oeddent yn gymwys yn flaenorol, mae hyn yn gadael 15% o bobl 18-24 oed a 5% o bobl 25-34 oed sy'n honni iddynt bleidleisio am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2017 er gwaethaf y ffaith eu bod yn gymwys yn flaenorol.³

³ Mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig

2.10 Yn gyffredinol, dywedodd 4% o'n hymatebwyr iddynt bleidleisio am y tro cyntaf yn etholiadau cynghorau'r Alban. Yn wahanol i Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, dywedodd y mwyafrif mai dyna oedd y tro cyntaf iddynt bleidleisio am nad oeddent yn gymwys yn flaenorol, sy'n dangos na chafodd yr etholiad ym mis Mai yr un effaith ysgogol ar bobl ifanc nad oeddent wedi pleidleisio yn flaenorol o gymharu ag Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig. Etholiadau cynghorau'r Alban yn 2017 oedd y set gyntaf o etholiadau cynghorau a defnwyd lle roedd pobl ifanc 16 a 17 oed yn gymwys i bleidleisio, ac roedd y grŵp oedran hwn yn cyfrif am y mwyafrif o'r rhai a bleidleisiodd am y tro cyntaf. O'r rhai 16 a 17 oed a bleidleisiodd ym mis Mai, nododd 43% mai dyna oedd y tro cyntaf iddynt bleidleisio.⁴

Agweddau tuag at bleidleisio

2.11 Ym mhob arolwg, rydym yn holi ymatebwyr am eu hagweddau tuag at bleidleisio yn etholiadau cyffredinol y DU, fel ffordd o ddeall beth yw eu barn am bleidleisio yn gyffredinol. Yn seiliedig ar eu hatebion, caiff yr ymatebwyr eu categoreiddio'n dri grŵp: pobl sy'n dweud eu bod 'bob amser yn pleidleisio', 'yn pleidleisio weithiau' a 'byth yn pleidleisio'. Rydym yn defnyddio agweddau tuag ag etholiadau cyffredinol er mwyn mesur agweddau mwy cyffredinol yn hytrach nag unrhyw fath arall o etholiad gan mai dyna'r rhai mwyaf cyson dros amser a nhw hefyd yw'r rhai mwyaf pegynol; mae safbwyntiau mwyaf cadarn pobl yn tueddu i fod ynghylch p'un a ydynt yn pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol.

2.12 Y grŵp sydd 'bob amser yn pleidleisio' sydd fwyaf tebygol o bleidleisio mewn unrhyw etholiad.⁵ Mae'n debygol mai nhw sy'n cyfrif am y mwyafrif o bleidleiswyr yn yr etholiadau llywodraeth leol a'r etholiadau maerol awdurdodau cyfunol ym mis Mai. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, hyd yn oed ymysg y grŵp hwn, bod llawer llai o bobl wedi honni iddynt bleidleisio ym mis Mai (74%) o gymharu â mis Mehefin (95%).

2.13 Mae pobl sydd 'bob amser yn pleidleisio' yn fwy tebygol o ystyried pleidleisio yn ddyletswydd arnynt fel dinasyddion o gymharu â phobl sy'n 'pleidleisio weithiau', y mae eu cymhellion yn newid yn dibynnu ar gyd-destun yr etholiad. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod pobl sydd 'bob amser yn pleidleisio' yn debygol o fod dros 35 oed, yn wyn ac o grŵp economaidd-gymdeithasol AB.

2.14 I'r gwrthwyneb, mae pobl sy'n 'pleidleisio weithiau' yn tueddu i fod yn iau. Yn y grŵp o bobl sy'n 'pleidleisio weithiau' y gwelir yr amrywiad mwyaf yn nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiad gwahanol; p'un a yw'r garfan hon o'r boblogaeth wedi'u cymell i bleidleisio ai peidio sy'n arwain at nifer fawr neu

⁴Mae'r ffaith bod yr etholfraint wedi'i hystyng yn yr Alban yn golygu y byddai rhai pobl ifanc 17 oed a bleidleisiodd ym mis Mai wedi bod yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau Senedd yr Alban ym mis Mai 2016 ac mewn unrhyw isetholiadau llywodraeth leol o fis Mai 2016.

⁵ Mae hyn yn cyfeirio at gyfran y bobl sy'n dweud wrthym eu bod wedi pleidleisio yn ein hymchwil ar ôl etholiad: gwyddom fod pobl yn fwy tebygol o honni eu bod wedi pleidleisio nag a bleidleisiodd mewn gwirionedd, oherwydd tuedd dymunoldeb cymdeithasol.

fach o bobl yn pleidleisio. Ymysg y bobl sy'n 'pleidleisio weithiau' yn Lloegr y gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng mis Mai a mis Mehefin; ym mis Mai, dim ond 21% a honnodd eu bod wedi pleidleisio, o gymharu â 66% a honnodd eu bod wedi pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol. I'r gwrthwyneb, y grŵp o bobl sy'n 'pleidleisio weithiau' yn yr Alban oedd leiaf tebygol o honni eu bod wedi pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol, 45% o gymharu â 66% o bobl sy'n 'pleidleisio weithiau' yn Lloegr, a 63% o bobl sy'n 'pleidleisio weithiau' yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith bod y nifer a bleidleisiodd yn yr Alban yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn is nag yng Nghymru a Lloegr.

2.15 Mae nodweddion demograffig yn effeithio ar b'un a fydd rhywun yn honni na fyddant byth yn pleidleisio: mae pobl o grŵp AB yn llai tebygol na phobl o grŵp C1/2 neu DE o gael eu cynnwys yn y categori 'byth yn pleidleisio', ac mae pobl dros 34 oed yn llai tebygol na phobl dan 34 oed o ddiffinio eu hunain fel hyn. Fodd bynnag, mae agweddau tuag at y system wleidyddol yn cael llawer mwy o effaith, gydag un rhan o dair (33%) o bobl sydd 'byth yn pleidleisio' yn dweud nad oes ots pwy sy'n rheoli'r wlad, o gymharu â 3% o'r bobl sydd 'bob amser yn pleidleisio'. Yn yr un modd, mae llai na hanner (49%) y bobl sydd 'byth yn pleidleisio' yn dweud bod pwy sy'n rhedeg y wlad yn effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau, o gymharu â 71% a 84% o'r bobl, gyda'r naill yn 'pleidleisio weithiau' a'r llall 'bob amser yn pleidleisio'.

Cymhellion dros bleidleisio ai peidio

Rhesymau a nodwyd dros bleidleisio

2.16 Yn ein harolygon ar ôl etholiad, roedd y rhesymau a roddodd pobl dros ddewis pleidleisio yn gyson yn gyffredinol mewn perthynas â phob etholiad yn 2017.

5 prif reswm dros bleidleisio yn ôl etholiad⁶:

Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon – mis Mawrth

- Mae'n bwysig pleidleisio / mae'n ddyletswydd arnaf fel dinesydd (45%)
- Rwyf bob amser yn pleidleisio (34%)
- Roeddwn am ddweud fy nweud (33%)
- Er mwyn sicrhau newid (25%)
- Roeddwn am fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd (13%)

Etholiadau llywodraeth leol / etholiadau maerol awdurdodau cyfunol (Prydain Fawr) – mis Mai

- Mae'n bwysig pleidleisio / mae'n ddyletswydd arnaf fel dinesydd (46%)
- Rwyf bob amser yn pleidleisio (22%)
- Roeddwn am ddweud fy nweud (22%)
- Er mwyn cefnogi fy mhlaid / ymgeisydd a ffefrir gennyf (11%)

⁶ Gallai'r ymatebwyr roi sawl ymateb i'r cwestiwn hwn.

- Er mwyn sicrhau newid (5%)

Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig – mis Mehefin

- Mae'n bwysig pleidleisio / mae'n ddyletswydd arnaf fel dinesydd (47%)
- Roeddwn am ddweud fy nweud (26%)
- Rwyf bob amser yn pleidleisio (17%)
- Er mwyn cefnogi fy mhlaid / ymgeisydd a ffefrir gennyf (13%)
- Er mwyn sicrhau newid (12%)

2.17 Yn y tri etholiad, mae barn gyffredinol bod pleidleisio yn ddyletswydd bwysig ar frig y rhestr o resymau pobl dros fynd i bleidleisio. Roedd 'Rwyf bob amser yn pleidleisio' hefyd yn ymateb cyffredin, er, ym mis Mehefin, roedd pobl yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig am eu bod am ddweud eu dweud (26%) yn hytrach nag am eu bod bob amser yn gwneud hynny. Efallai bod hyn yn deillio o'r ffaith bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod wedi pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig: fel yr archwiliwyd uchod, mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu cymell i bleidleisio er mwyn cael dweud eu dweud, ac yn llai tebygol o honni ei fod am eu bod 'bob amser yn pleidleisio'.

2.18 Yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth, rhoddwyd y dyhead i 'sicrhau newid' fel cymhelliad cryf dros bleidleisio, ac ar lefelau uwch o gymharu ag etholiadau blaenorol y Cynulliad. Yn 2017, dywedodd 25% eu bod wedi pleidleisio 'er mwyn sicrhau newid', o gymharu â dim ond 6% a 7% yn etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon, y naill yn 2016 a'r llall yn 2011.

Rhesymau a nodwyd dros beidio â phleidleisio

2.19 Ar ôl etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth, gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl a honnodd na wnaethant bleidleisio am nad oeddent wedi cofrestru i bleidleisio (16% o gymharu â 5% ym mis Mai 2016). Gall hyn fod yn gysylltiedig â nifer y bobl y cafodd eu henwau eu dileu o'r gofrestr etholiadol ym mis Rhagfyr 2016. Aethom i'r afael â'r mater hwn yn ein [hadroddiad ar etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2017](#).

2.20 Yn fwy cyffredinol, rydym yn gweld yn gyson bod pobl fwyaf tebygol o nodi na wnaethant gymryd rhan mewn etholiadau oherwydd amgylchiadau – am eu bod yn rhy brysur neu i ffwrdd ar y diwrnod pleidleisio – yn hytrach na'r rhesymau sy'n gysylltiedig ag anfodlonrwydd â'r broses etholiadol neu'r system wleidyddol. Pan ofynnwyd iddynt pam na wnaethant bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, dywedodd 19% o'r bobl nad oeddent wedi pleidleisio yn ein harolwg nad oeddent wedi cael digon o amser neu eu bod yn rhy brysur yn y gwaith; dywedodd 11% arall eu bod i ffwrdd ar y diwrnod pleidleisio. Yn yr un modd, dywedodd chwarter (24%) o'r rhai na wnaethant bleidleisio yn yr etholiadau ym mis Mai nad oeddent wedi cael digon o amser.

2.21 Er y gall fod cysylltiad rhwng methu â chael amser i bleidleisio a diffyg cymhelliad – gellid dadlau y byddai pobl a oedd yn wirioneddol am bleidleisio

wedi dod o hyd i ffordd o wneud hynny – mae hyn hefyd yn nodi y bydd sicrhau bod y broses mor rhwydd â phosibl yn allweddol er mwyn cael rhai pobl yn cymryd rhan.

2.22 Mae ymwybyddiaeth o etholiad a'r ymgeiswyr hefyd yn ffactor pwysig o ran pennu'r nifer a bleidleisiodd ac rydym yn archwilio'r maes hwn ymhellach yn y bennod nesaf.

3 Ymgysylltiad: ymwybyddiaeth

Canfyddiadau allweddol

- Roedd lefelau o ymwybyddiaeth a nodwyd ar eu uchaf yn yr etholiadau lle roedd y nifer a bleidleisiodd ar ei uchaf.
- Roedd ymwybyddiaeth o'r etholiadau llywodraeth leol a'r etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol yn arbennig o isel; cafodd llawer o'r rheini a oedd o'r farn eu bod yn hyddysg am yr etholiad drafferth i enwi'r corff yr oeddent yn ethol cynrychiolwyr iddo yn gywir.
- Fel gyda'r nifer a bleidleisiodd, ni welwyd llawer o wahaniaeth yn y lefelau ymwybyddiaeth yn ôl oedran yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig o gymharu â'r etholiadau lleol.
- Roedd hyn yn dangos newid ers 2015 pan wnaethom ganfod fod pobl ifanc yn llai tebygol o nodi eu bod yn ymwybodol o'r diwrnod pleidleisio. Fodd bynnag, yn etholiadau lleol 2017, roedd pobl ifanc yn dal i fod yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn gwybod llawer neu ddigon am yr etholiadau.

Lefelau ymwybyddiaeth

3.1 Mae cael pleidleiswyr hyddysg yn sylfaenol i'r broses ddemocrataidd. Ceir cysylltiad agos rhwng yr ymdeimlad o fod yn hyddysg a'r penderfyniad i fynd i bleidleisio ac yn aml caiff diffyg gwybodaeth ei nodi fel rheswm dros beidio â phleidleisio neu dros deimlo'n anfodlon ar y broses etholiadol. Wrth gwrs, mae cymhelliant yn bwysig; bydd y sawl sydd am bleidleisio yn chwilio am wybodaeth fel y dangosir yn ein canfyddiadau isod. Fodd bynnag, mae sicrhau bod y wybodaeth mor gywir â phosibl yn hanfodol, yn enwedig mewn etholiadau lleol sy'n cael llawer llai o sylw yn y cyfryngau nag etholiad cyffredinol.

3.2 Ar ôl pob etholiad, gwnaethom holi'r ymatebwyr faint roeddent yn teimlo eu bod yn ei wybod am yr etholiad dan sylw. Fel y gellid disgwyl, mae ymwybyddiaeth yn adlewyrchu'r nifer a bleidleisiodd, gyda lefelau ymwybyddiaeth a nodwyd ar ei uchaf yn yr etholiadau lle mae'r nifer a bleidleisiodd ar ei uchaf: gweler siart 3.1 isod. Mae'n debygol mai dyna oedd achos y nifer uwch a bleidleisiodd yn yr etholiadau hyn a'i fod yn ganlyniad i hynny: o ystyried y ffaith bod nifer fwy wedi pleidleisio yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ac Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, byddai'n awgrymu bod cyfran fwy yn ymwybodol o gymharu â'r etholiadau lle cafwyd nifer llai yn pleidleisio. Byddai hefyd yn gwneud synnwyr y byddai cyfran fwy o'r etholwyr yn teimlo eu bod yn hyddysg wedi golygu eu bod yn fwy tebygol o bleidleisio yn y lle cyntaf.

O gymharu, roedd ymwybyddiaeth o'r etholiadau llywodraeth leol a'r etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol a gynhaliwyd ym mis Mai yn llawer is. Gan adlewyrchu'r nifer a bleidleisiodd unwaith eto, roedd ar ei uchaf yn yr Alban (67%) ac ar ei isaf ar gyfer etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol (47%). Hyd yn oed ymysg y sawl a honnodd eu bod yn gwybod llawer neu ddigon am yr etholiadau ym mis Mai, mae ein canfyddiadau'n dangos mai prin oedd y wybodaeth wirioneddol am yr etholiadau llywodraeth leol.


3.3 Roedd hyn yn arbennig o wir yn Lloegr, lle mai etholiadau cynghorau sir oedd y mwyafrif o'r etholiadau; yn gyffredinol, llai hanner (48%) a allai enwi'n gywir y cyngor yr awdurdod yr oeddent yn ethol cynrychiolwyr iddynt, ac roedd y ffigur hwn yn 53% ymysg y rhai a honnodd eu bod wedi pleidleisio a dim ond yn 56% o hyd ymysg y rhai a honnodd eu bod yn teimlo'n hyddysg am yr etholiad.

3.4 Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer yr ymatebion hynny a oedd yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol cyntaf. Yn yr achos hwn, roedd 42% o'r ymatebwyr yn gallu enwi eu hardal awdurdod cyfunol yn gywir, gan godi i 50% ymysg y rhai a honnodd eu bod wedi pleidleisio.

Ymwybyddiaeth ac oedran

3.5 Fel y nodir uchod, roedd yr amrywiaeth yn y nifer a bleidleisiodd yn ôl oedran ar ei fwyaf yn etholiadau mis Mai; yn unol â hyn, gwelwyd hefyd fwy o amrywiaeth yn y lefelau ymwybyddiaeth rhwng grwpiau oedran yn yr etholiadau llywodraeth leol a'r etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol. Fel y dangosir yn siart 3.2, yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, dim ond tri phwynt canrannol oedd yn gwahanu'r grwpiau oedran o ran ymwybyddiaeth, ac yn yr etholiadau llywodraeth leol, roedd yr ymatebwyr iau yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr etholiadau na'r ymatebwyr hŷn. Yn wir, roedd llai nag un rhan o dair o bobl 18-34 yn Lloegr yn teimlo eu bod yn gwybod rhywbeth am yr etholiadau lleol yn eu hardal.

Siart 3.2: Ymwybyddiaeth yn ôl oedran yn etholiadau 2017



Ffynhonnell: Arolygon ar ôl Etholiadau y Comisiwn Etholiadol (ICM / Kantar TNS)
 C. Faint roeddech yn ei wybod am yr etholiad a gynhliwyd ar _____ yn eich barn chi?
 Ymwybyddiaeth = % yn dweud Ilaewr / cryn dipyn


3.6 Gan adlewyrchu'r ffaith i nifer uwch o bobl 18-34 oed bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn 2017 o gymharu â 2015, mae lefel yr ymwybyddiaeth ymysg pobl dan 34 oed hefyd yn cynrychioli cynnydd o 7 pwynt canrannol o gymharu â 2015 (81%). Yn 2015, y gwahaniaeth mewn ymwybyddiaeth rhwng pobl 18-34 oed a 35-54 oed a thros 54 oed oedd 9 pwynt canrannol a 10 pwynt canrannol yn y drefn honno.

Y gallu i gael gafael ar wybodaeth a ffynonellau gwybodaeth

Y gallu i gael gafael ar wybodaeth

3.7 Ledled y DU, cytunodd 85% eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad hyddysg ynghylch pwy y dylent bleidleisio drostynt. Yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth, cytunodd 78% bod ganddynt ddigon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniad hyddysg.

Siart 3.3: Canran yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i allu



Ffynhonnell: Arolygon ar ôl Etholiadau y Comisiwn Etholiadol (ICM / Kantar TNS)
C. I ba raddau ydych chi'n cytuno / anghytuno y cawsoch ddigono wybodaeth am ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad hyddysg? *Dangos % yn dweud cytuno'n gryf + tueddu i gytuno*
 N.B. Ym mis Mehefin, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi cael digon o wybodaeth i

3.8 Yn yr etholiadau lleol ym mis Mai, roedd llai o bobl o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth am bwy y dylent bleidleisio drostynt (54% yn Lloegr a 55% yng Nghymru). Yn yr Alban, roedd 65% yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am ymgeiswyr. Ym mhob etholiad, roedd pleidleiswyr yn llawer mwy tebygol na phobl na wnaethant bleidleisio o gredu eu bod wedi cael digon o wybodaeth. Gan bwysleisio'r cysylltiad rhwng gwybodaeth a'r nifer a bleidleisiodd, roedd y bwlch rhwng pleidleiswyr a'r rhai na wnaethant bleidleisio ar ei fwyaf yn yr etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol.

Ffynonellau gwybodaeth

3.9 Ymysg y rhai a oedd o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth am ymgeiswyr a safodd yn yr etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol ym mis Mai, prif ffynhonnell y wybodaeth oedd taflenni gan bleidiau ac ymgeiswyr gwleidyddol. Pobl yng Nghymru oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael digon o wybodaeth am ymgeiswyr drwy daflenni (75%), yna yr Alban (68%) a Lloegr (63%). Nododd cyfran ychydig yn llai eu bod wedi cael gwybodaeth am yr ymgeiswyr Maerol Awdurdodau Cyfunol drwy daflenni (54%) gyda gwefannau Awdurdodau Cyfunol (19%) a'r llyfrynnau ar ymgeiswyr a luniwyd gan yr Awdurdod Cyfunol (17%) hefyd yn cael eu rhestru fel ffynonellau gwybodaeth allweddol. O'r rhai a oedd yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr ymgeiswyr yn etholiadau mis Mai, dywedodd 20% eu bod wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gafael ar wybodaeth.

3.10 Yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, nododd yr ymatebwyr eu bod wedi cael gwybodaeth am bwy y dylent bleidleisio ar eu cyfer drwy amrywiaeth lawer ehangach o lwyfannau⁷. Y pum llwyfan a ddefnyddiwyd fwyaf oedd: cyfweiliadau teledu (48%), cyfryngau cymdeithasol (37%⁸), erthyglau mewn papurau newydd cenedlaethol (28%), safleoedd newyddion ar-lein (24%), a thafenni gan bleidiau / ymgeiswyr gwleidyddol (23%). Roedd etholwyr yng Ngogledd Iwerddon yn fwy tebygol nag unrhyw un arall o ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth drwy daflenni gan bleidiau gwleidyddol (34%, o gymharu â 23% ar gyfer y DU yn gyffredinol) – yr ail llwyfan a ddefnyddiwyd fwyaf oedd cyfweiliadau teledu (49%).

3.11 Ledled y DU, roedd y gwahaniaeth rhwng pobl dan 35 oed a thros 35 oed yn amlwg; roedd pobl dros 35 oed yn llawer mwy tebygol o droi at gyfweiliadau teledu a radio o gymharu â phobl dan 35 oed, a ddywedodd eu bod wedi cael gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau pleidiau gwleidyddol.


Sylw yn y cyfryngau

3.12 Mae ein canfyddiadau am ffynonellau gwybodaeth yn cyfateb i'r lefel ganfyddedig o sylw a roddwyd yn y cyfryngau ar gyfer pob un o'r etholiadau, fel y gwelir yn siart 3.4 isod.

3.13 Yn yr etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol lle roedd y nifer a bleidleisiodd yn llai, roedd pobl yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr etholiadau nag oeddent i ddweud eu bod yn credu bod yr etholiad wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau. Mae'r gwrthwyneb yn wir am etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ac Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig. Ar gyfer yr etholiadau lleol, lle cafwyd llai o sylw yn y cyfryngau, roedd yr etholwyr hynny a oedd o'r farn eu bod yn gwybod llawer wedi dibynnu llai ar ffynonellau gwybodaeth eraill i'w helpu i wneud penderfyniad ynghylch pwy y dylent bleidleisio drostynt.

⁷Gallai'r ymatebwyr restru sawl llwyfan

⁸ 18% Facebook, 9% Twitter a 10% 'cyfryngau cymdeithasol arall'



3.14 Er bod gan yr etholaeth farn gadarn bod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau (92% yn cytuno), nid oedd mor argyhoeddedig ynghylch pa mor ddiuedd oedd y sylw hwn. Dim ond un rhan o dair (34%) a oedd yn credu bod Etholiad Cyffredinol y DU wedi cael sylw teg a chytbwys yn y cyfryngau. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r 37% a oedd yn credu bod y sylw a gafodd refferendwm yr UE yn deg a chytbwys. Caiff rôl y cyfryngau mewn perthynas â'r canfyddiadau o dwyll etholiadol ei harchwilio ym Mhennod 4.


Cysylltiadau ymgyrchu

3.15 Yn ein harolygon ar ôl etholiadau mis Mai a mis Mehefin, gwnaethom holi pobl ynghylch cysylltiadau diweddar gan ymgyrchwyr. Mae'r siart isod yn dangos y canlyniadau ar gyfer mis Mai o gymharu â mis Mehefin.⁹ Dylid nodi bod y gorgyffwrdd rhwng y ddau etholiad, gyda'r etholiad cyffredinol yn cael ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod ymgyrchu ar gyfer etholiadau mis Mai, yn debygol o fod wedi dylanwadu ar y canlyniadau ar gyfer mis Mai. Efallai na fyddem yn disgwyl gweld lefelau mor uchel o gysylltiadau ymgyrchu mewn set 'arferol' o etholiadau lleol.

3.16 Nododd y mwyafrif helaeth eu bod wedi cael rhyw fath o gyswilt ymgyrchu, cyn etholiadau mis Mai a mis Mehefin. Mae'r prif wahaniaethau rhwng mis Mai a mis Mehefin yng nghyfran y bobl a welodd hysbyseb neu neges gan blaid wleidyddol, naill ai ar y teledu neu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn cyn cyfateb i'r canfyddiadau ar ffynonellau o wybodaeth a amlinellir yn y paragraffau blaenorol [3.11-3.13]: taflenni gan bleidiau gwleidyddol oedd y ffynonellau gwybodaeth allweddol yn yr etholiad llywodraeth leol, yn absenoldeb teledu proffil uchel ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cyd-fynd â'r etholiad cyffredinol.

⁹Dengys bod ffigurau Prydain Fawr ar gyfer mis Mehefin yn debyg i'r rhai ar gyfer mis Mai – ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn ystod etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth.

Siart 3.5: Cyswllt ymgyrchoedd ym Mhrydain Fawr ym mis Mai o gymharu



Ffynhonnell: Arolygon ar ôl Etholiadau y Comisiwn Etholiadol (ICM)

C. Gan feddwl am yr ychydig fisoedd diwethaf, pa rai o'r canlynol allwch chi gofio iddynt ddiqwydd?

3.17 Caiff pwysigrwydd mathau uniongyrchol o gyfathrebu a gwaith pleidiau ac ymgyrchwyr ei amlinellu ymhellach gan y gwahaniaethau sylweddol mewn cysylltiadau ymgyrchu a nodwyd rhwng pleidleiswyr a phobl na wnaethant bleidleisio yn etholiadau mis Mai. Dywedodd 91% o bleidleiswyr ym mis Mai eu bod wedi cael taflen yn eu cartref, o gymharu â 87% o bobl na wnaethant bleidleisio; roedd 81% o bleidleiswyr wedi gweld ymgyrchwyr yn dosbarthu tafenni wrth ymyl eu cartref o gymharu â 53% o bobl na wnaethant bleidleisio; a dywedodd 57% o bleidleiswyr fod ymgyrchydd wedi curo ar eu drws, o gymharu â 41% o bobl na wnaethant bleidleisio.

4 Profiad: hyder a boddhad

Canfyddiadau Allweddol


- Er bod boddhad â'r system gofrestru etholiadol yn uchel, mae awydd am ddiwygio o hyd. Nododd bron i ddwy ran o dair eu bod yn cefnogi cofrestru awtomatig wrth gael rhif Yswiriant Gwladol.
- Yng Ngogledd Iwerddon, canfu ein gwaith ymchwil bod boddhad â'r broses bleidleisio wedi gostwng rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, a hefyd rhwng etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2016 a 2017. Mae'n debygol y gellir priodoli'r gostyngiad hwn, yn rhannol o leiaf, i'r anghytundeb gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon a gall hefyd awgrymu rhywfaint o 'flinder ymysg pleidleiswyr'.
- Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd yn credu bod y system bleidleisio yn y DU yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd; fodd bynnag, mae canfyddiad o hyd, ymysg lleiafrif sylweddol, bod rhywfaint o dwyll yn digwydd mewn etholiadau, wedi'i ysgogi'n benodol gan straeon yn y cyfryngau yn hytrach na thrwy brofiad uniongyrchol neu dystiolaeth o weithgarwch twyllodrus.

Hyder bod yr etholiadau yn cael eu cynnal yn effeithiol

4.1 O blith y sawl a arolygwyd ym Mhrydain Fawr ar ôl etholiadau lleol mis Mai, dywedodd 81% eu bod yn hyderus bod yr etholiad wedi'i gynnal yn effeithiol; yn yr un modd, roedd 79% yn hyderus bod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig wedi'i gynnal yn effeithiol. Roedd Gogledd Iwerddon yn wahanol i Brydain Fawr yn hyn o beth, gyda bwlch o 8 pwynt canrannol rhwng y gyfran a oedd yn credu bod etholiad brys Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth wedi'i gynnal yn effeithiol (86%) a'r gyfran a oedd o'r un farn ynghylch Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig.

4.2 Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, mynediad i wybodaeth oedd un o'r prif wahaniaethau i bleidleiswyr rhwng yr etholiadau llywodraeth leol ac etholiad cyffredinol y DU. Adlewyrchwyd hyn pan ofynnwyd i bobl pam nad oeddent yn hyderus bod yr etholiadau wedi'u cynnal yn effeithiol; ymysg y rhai *nad* oeddent yn hyderus bod yr etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi'u cynnal yn effeithiol, dywedodd 63% a 59% o bobl yn y drefn honno mai diffyg gwybodaeth oedd yn gyfrifol am hyn. I'r gwrthwyneb, nododd 24% mai gwybodaeth oedd eu rheswm dros amau bod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig wedi'i gynnal yn effeithiol. Roedd y rhesymau'n ymwneud â drwgdybio gwleidyddion a'r system wleidyddol (19%) a hefyd, nodwyd problemau gydag ymgyrch neu ymgeiswyr (16%) fel prif resymau dros amau

bod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig wedi'i gynnal yn effeithiol. Roedd y rhain yn llai amlwg yn yr ymatebion ynghylch etholiadau mis Mai.



Cofrestru


Prydain Fawr

4.3 O ystyried bod y system gofrestru yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn, mae'n gwneud synnwyr bod agweddau tuag ati yn sefydlog ar y cyfan. Yr hyn sy'n amrywio yw lefel yr ymgysylltiad â'r system, gyda mwy o bobl yn cofrestru i bleidleisio yn ystod y cyfnod cyn etholiad nag ar unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.

4.4 Fel y dengys siart 4.2, cafwyd cynnydd bach yn nifer y ceisiadau yn y cyfnod cyn etholiadau mis Mai ac yna gynydd llawer mwy cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith na chynhaliwyd etholiadau ym mhob ardal ym mis Mai ynghyd â'r cynnydd yn y sylw a roddwyd i'r etholiad cyffredinol a'r diddordeb ynddo.

4.5 Er gwaethaf y lefelau gwahanol o ymgysylltiad â'r system ym mis Mai o gymharu â mis Mehefin, mae'r boddhad yn gyson. Pan ofynnwyd ym mis Mai, dywedodd 87% o'r rhai mewn ardaloedd lle cafodd etholiadau eu cynnal eu bod yn fodlon ar y system gofrestru; ym mis Mehefin, dywedodd 86% o'r etholwyr a arolygwyd ym Mhrydain Fawr eu bod yn fodlon. Gwelwyd bod y lefelau boddhad yn debyg ymysg grwpiau demograffig ac ymysg y rhai a oedd wedi cofrestru yn ystod yr wythnosau a'r diwrnodau olaf cyn y dyddiad cau.

Siart 4.2: Ceisiadau i bleidleisio rhwng mis Ionawr a mis Medi 2017



Ffynhonnell: www.gov.uk/performance/register-to-vote

4.6 Er gwaethaf y ffaith bod y mwyafrif yn dweud eu bod yn fodlon ar y system gofrestru yn ei ffurf bresennol, mae llawer hefyd yn dweud eu bod yn cefnogi gwneud newidiadau iddi. Ym Mhrydain Fawr, y lefelau uchaf o gefnogaeth a ddangoswyd ar gyfer cofrestru awtomatig yw pan fydd person yn cael ei rif Yswiriant Gwladol: roedd 58% o'r ymatebwyr yn cytuno â hyn. Dywedodd 34% y dylech allu cofrestru mewn gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol [adroddiad ar gofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017](#); mae hwn yn cynnwys trosolwg o argymhellion y Comisiwn ar sicrhau bod y broses gofrestru etholiadol yn fwy cydgyssylltiedig mewn ymateb i ddisgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd.


Gogledd Iwerddon

4.7 Canfu ein hymchwil lefelau boddhad ychydig yn is gyda'r system gofrestru yng Ngogledd Iwerddon, lle na ellir gwneud cais i gofrestru ar-lein eto. Yn ein harolwg ar ôl etholiad ym mis Mehefin, dywedodd 78% eu bod yn fodlon ar y broses, o gymharu â 86% ym Mhrydain Fawr. Yn ein harolwg ar ôl etholiad ym mis Mawrth, roedd 77% yn cytuno y dylech allu cofrestru i bleidleisio ar-lein.

4.8 Mae cofrestru etholiadol ar-lein wedi ei gwneud yn llawer haws i bleidleiswyr ym Mhrydain Fawr gymryd rhan mewn etholiadau a refferenda. Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Comisiwn ar [gofrestru etholiadol yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin 2017](#), gohiriodd y Prif Swyddog Etholiadol y broses a drefnwyd o gyflwyno system gofrestru ar-lein pan gyhoeddwyd etholiad brys Cynulliad Gogledd Iwerddon. Roedd hyn yn ddealladwy o ystyried y ffaith bod angen mynd i'r afael â nifer o heriau technegol cyn ei rhoi ar waith, ond edrychwn ymlaen at glywed y Prif Swyddog Etholiadol yn argymhell y gwaith hwn cyn gynted â phosibl.

Pleidleisio

4.9 Yng Nghymru a Lloegr, roedd boddhad â'r weithdrefn ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau yn gyson o hyd, ac yn gymharol uchel, rhwng mis Mai a mis Mehefin (siart 4.3). Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon y gwelwyd y gwahaniaethau mwyaf sylweddol rhwng y lefelau boddhad.



4.10 Yng Ngogledd Iwerddon, gostyngodd boddhad â'r broses bleidleisio o 87% ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mawrth i 76% ar ôl etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin. Yn anffodus, nid yw ein sampl o ymatebwyr anfodlon yng Ngogledd Iwerddon yn ddigon mawr i ymchwilio'n fanwl i'r rhesymau dros y gostyngiad hwn. Fodd bynnag, mae'n adlewyrchu gostyngiadau tebyg ar fetrigau eraill. Er enghraifft, er bod 86% yn hyderus bod etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon 2017 wedi'i gynnal yn effeithiol, dywedodd 78% yr un peth am Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r gostyngiad hefyd yn cyfateb i'r gostyngiad ym mhob un o'r mesurau hyn rhwng etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2016 a 2017. Credwn y gall hyn fod, yn rhannol o leiaf, yn gysylltiedig â chynnydd mewn negyddoldeb o ganlyniad i'r anghytundeb gwleidyddol. Mae hefyd yn arwydd o 'flinder posibl ymysg pleidleiswyr'.

4.11 Datgelodd ein harolwg ar ôl etholiad ym mis Mai yn yr Alban bod pleidleiswyr 16 a 17 oed yn llai bodlon na'r boblogaeth gyffredinol ar y weithdrefn ar gyfer pleidleisio a gyda'r system gofrestru etholiadol. Gall hyn fod yn gysylltiedig â'u profiad fel pleidleiswyr am y tro cyntaf a'r ffaith eu bod

yn llai cyfarwydd â'r system nag etholwyr hŷn. Etholwyr iau hefyd yw'r rhai sy'n cefnogi'r broses o awtomeiddio a digideiddio'r broses etholiadol yn fwy: roedd 74% o bobl ifanc 16 a 17 oed a 64% o bobl 18 i 34 oed yn cytuno y dylech gael eich ychwanegwyd at y gofrestr yn awtomatig pan fyddwch yn cael eich rhif Yswiriant Gwladol. Dywedodd dwy ran o dair o bobl ifanc 16 a 17 oed a 52% o bobl 18 i 34 oed y byddent wedi bod yn fwy tebygol o bleidleisio pe byddent wedi gallu pleidleisio ar-lein yn lle hynny. Ar hyn o bryd, nid yw'r Comisiwn yn cefnogi pleidleisio ar-lein ac yn credu y byddai angen i unrhyw gam tuag at hynny fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfiawnhad cadarn; er hyn, mae'r safbwyntiau hyn yn amlygu'r angen i'r system fodloni disgwyliadau cymdeithas fodern o wasanaethau cyhoeddus.

Bwrw pleidlais

4.12 Defnyddiwyd tair system bleidleisio wahanol yn yr etholiadau yn 2017; defnyddiwyd Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ac yn etholiadau cynghorau'r Alban; cynhaliwyd yr etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol newydd gan ddefnyddio'r system Pleidlais Atodol; a defnyddiodd Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr system y Cyntaf i'r Felin. Felly defnyddiodd pleidleiswyr yn yr Alban, Gogledd Iwerddon ac ardaloedd maerol awdurdodau cyfunol ddwy system wahanol mewn etholiadau a gynhaliwyd yn gymharol agos at ei gilydd.

4.13 Mae dystiolaeth o'r etholiadau ledled y DU yn dangos bod systemau pleidleisio ffafraethol yn tueddu i arwain at gyfraddau uwch o bleidleisiau a wrthodwyd yn hytrach na systemau pleidleisio mwyafrif syml. O ganlyniad i'r ffaith bod gan systemau mwyafrif syml ofynion symlach, bydd gan bleidleiswyr lai o gyfleoedd i wneud camgymeriadau.

4.14 Mae safbwyntiau pleidleiswyr yn adlewyrchu'r graddau anhawster amrywiol wrth gwblhau'r papur pleidleisio. Yn ein harolwg ar ôl etholiadau cynghorau'r Alban ym mis Mai, dywedodd 5% o'r pleidleiswyr eu bod wedi cael trafferth wrth gwblhau eu papurau pleidleisio o gymharu â 2% yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ac 1% neu lai yn etholiadau y Cyntaf i'r Felin.

4.15 Yng Ngogledd Iwerddon, roedd cyfran y papurau pleidleisio a wrthodwyd (1.16%) yn unol â'r gyfran a wrthodwyd yn etholiad mis Mai 2016 (1.34%). Yn etholiadau cynghorau'r Alban, cynyddodd y gyfran o bapurau pleidleisio a wrthodwyd rywfaint o 1.74% yn 2012 i 1.95% yn 2017. Yn ein hadroddiad ar y broses o weinyddu'r etholiad, nodwyd gennym fod dadansoddiad cychwynnol ar lefel ward yn awgrymu bod y gyfradd o bapurau pleidleisio a wrthodwyd yn uwch mewn wardiau lle roedd lefelau uwch o amddifadedd a diweithdra. Fodd bynnag, roedd y wardiau hyn hefyd yn fwy tebygol o gynnwys sawl ymgeisydd yn sefyll o un blaid, a all fod wedi bod yn ffactor cyfrannol hefyd. Bwriedir cynnal dadansoddiad pellach er mwyn ceisio nodi ffactorau achlysurol sy'n arwain at gyfraddau uwch na'r cyffredin o bapurau pleidleisio a wrthodwyd.

Tabl 4.1: Papurau pleidleisio a wrthodwyd a safbwyntiau'r cyhoedd ar yr anhawster

Etholiad	System bleidleisio	Pleidleisiau a wrthodwyd (%)	% a ddywedodd ei bod wedi bod yn anodd cwblhau eu papur pleidleisio
Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig	System y Cyntaf i'r Felin	0.23%	1%
Etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr		0.26%	*%
Etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru		0.52%	1%
Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon	Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	1.16%	2%
Etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol	Pleidlais Atodol	1.34%	4%
Etholiadau cynghorau'r Alban	Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	1.95%	5%

4.16 Er na ddangosodd ein dadansoddiad ar lefel ward lefelau uwch o bapurau pleidleisio a wrthodwyd mewn ardaloedd lle roedd crynodiadau uwch o bobl ifanc, mae ein harolwg ar ôl etholiad yn awgrymu bod oedran yn ffactor, o leiaf o ran y bobl a nododd eu bod wedi'i chael hi'n anodd cwblhau eu papur pleidleisio. Roedd pleidleiswyr rhwng 18 a 34 oed yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod wedi'i chael hi'n anodd cwblhau eu papur pleidleisio (16%) o gymharu â phleidleiswyr 16 a 17 oed (7%) a phleidleiswyr dros 35 oed (2% ymysg pobl rhwng 35 a 54 oed a 3% ymysg pobl dros 55 oed).

4.17 Mae'n bosibl bod y lefelau cymharol isel o bobl ifanc 16 a 17 oed a nododd eu bod wedi'i chael hi'n anodd cwblhau eu papur pleidleisio yn arwydd o'r gwaith a wnaeth y Comisiwn a'i sefydliadau partner er mwyn lledaenu gwybodaeth am bleidleisio i'r grŵp oedran hwn. Cynhaliodd y Comisiwn ymgyrch #ReadyToVote mewn ysgolion er mwyn targedu pobl ifanc 16 a 17 oed gyda gwybodaeth am gofrestru i bleidleisio a'r broses o bleidleisio.¹⁰

4.18 Er bod y canlyniadau'n dangos bod yr ymgyrch hon yn effeithiol, maent hefyd yn amlygu'r angen i wella dealltwriaeth pleidleiswyr o'r system

¹⁰ Cofrestrodd 293 o ysgolion uwchradd i gymryd rhan yn yr ymgyrch #ReadyToVote, gan gynrychioli mwy na 80% o holl ysgolion uwchradd awdurdodau lleol. Gallwch ddarllen mwy am y gwaith hwn yn [adroddiad y Comisiwn ar etholiadau Cynghorau'r Alban](#).


etholiadol i bob grŵp oedran. Amlinellodd y Comisiwn gyfres o argymhellion am hyn yn yr adroddiad ar etholiadau cynghorau'r Alban¹¹.

Uniondeb etholiadol

4.19 Mae ein hymchwil yn dangos bod y cyhoedd yn gyffredinol yn credu bod etholiadau yn y DU yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd. Ar ôl Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, dywedodd 79% eu bod yn credu bod 'pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd'.

4.20 Fodd bynnag, o etholiad i etholiad, roedd y canfyddiadau bod rhywfaint o dwyll wedi digwydd hefyd yn gyson i raddau helaeth, gyda thua chwarter yn credu bod rhywfaint o dwyll wedi digwydd. Roedd y canfyddiadau bod twyll wedi digwydd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn uwch (38%); mae hyn yn cyfateb i ganlyniadau 2015 lle roedd 35% yn credu bod twyll wedi digwydd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig.

4.21 Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r cyhoedd o dwyll yn llawer uwch nag unrhyw brofiad uniongyrchol ohono. Rydym hefyd yn gweld bod pobl yn fwy tebygol o gredu bod twyll wedi digwydd yn etholiad cyffredinol y DU nag mewn etholiad lleol, sy'n debygol o fod o ganlyniad i'r sylw mwy parhaus a roddir i faterion sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol y DU yn y cyfryngau.



4.22 Er bod cyfran uwch yn credu bod twyll wedi digwydd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig o gymharu â Chynulliad Gogledd

¹¹ https://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0006/233673/Scottish-Council-elections-2017.pdf Gweler tudalennau 14 a 15

Iwerddon neu etholiadau lleol, roedd y rhesymau a oedd yn sail i'r canfyddiad yn debyg iawn yn yr holl etholiadau gwahanol. Pan ofynnwyd i'r cyhoedd pam roeddent yn credu bod twyll wedi digwydd, yr ymateb mwyaf cyffredin a gafwyd, o blith cyfres o ddatganiadau, oedd eu bod 'wedi gweld straeon yn y cyfryngau am bleidiau gwleidyddol yn torri'r rheolau'. Mae'n werth nodi bod llawer o sylw yn cael ei roi yn y cyfryngau o droseddau gwariant ar ymgyrchu yn dyddio'n ôl i Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015 ym mis Mai yn ystod cyfnod ein harolwg ar ôl etholiad.

4.23 Ym Mhrydain Fawr, arweiniodd y ffaith nad oes raid i etholwyr roi prawf adnabod er mwyn pleidleisio yn rhannol at y farn bod twyll wedi digwydd ym mis Mai ac yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig. Ym mis Mai a mis Mehefin, dywedodd 11% a 15% o'r rhai a oedd yn credu bod twyll wedi digwydd bod diffyg prawf adnabod wedi cyfrannu at y gred honno.

4.24 Yn 2014, argymhellodd y Comisiwn Etholiadol y dylid cyflwyno cynllun adnabod pleidleiswyr hygyrch a chymesur ym Mhrydain Fawr, yn cynnwys cerdyn am ddim i bleidleiswyr gyda llun arno ar gyfer y sawl nad oes ganddynt gerdyn adnabod gyda llun arno eisoes.¹² Gwnaethom groesawu cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth y byddai'n cynnal cynllun peilot i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod mewn gorsafoddd pleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr ym mis Mai 2018. Credwn fod hwn yn gam cadarnhaol tuag at weithredu ein hargymhelliad.

¹² Mae wedi bod yn ofynnol i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon ddangos prawf adnabod ffotograffig ers 2003. Mae cardiau adnabod ar gael am ddim i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon.

Siart 4.5: Prif resymau dros feddwl bod twyll wedi digwydd yn etholiadau 2017 - Prydain Fawr




Ffynhonnell: Arolygon ar ôl Etholiadau y Comisiwn Etholiadol (ICM)

Q. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam y digwyddodd twyll neu gamddefnydd ar _____ yn eich barn chi? Dangos y 6 uchaf

4.25 Yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, lle mae prawf adnabod yn ofynnol eisoes, y prif reswm dros gredu bod twyll wedi digwydd oedd 'argraff gyffredinol bod twyll yn broblem'. Roedd hyn yn drech na'r pryderon ynghylch cynnydd yn yr achosion o dwyll hunaniaeth a throseddau wrth gofrestru, a oedd ar frig y rhestr o resymau ar ôl etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mai 2016. Yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yng Ngogledd Iwerddon, roedd "straeon yn y cyfryngau am dwyll etholiadol" a "straeon yn y cyfryngau am bleidiau gwleidyddol yn torri'r rheolau" yn uwch nag "argraff gyffredinol" bod twyll yn broblem fel rheswm dros gredu bod twyll wedi digwydd. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r sylw a roddwyd yn y cyfryngau ar ôl yr etholiad ym mis Mawrth ac yna eto ym mis Mehefin ynghylch twyll posibl mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy a chamddefnyddio'r system prawf adnabod.

Siart 4.6: Prif resymau dros feddwl bod twyll wedi digwydd yn etholiad 2017 - Gogledd Iwerddon



Nodyn: Roedd 'Straeon yn y cyfryngau am bleidiau gwleidyddol yn torri'r rheolau' yn ateb posibl ym mis Mehefin ond nid ym mis Mawrth. Ym mis Mehefin, dywedodd 24% o'r ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon mai dyna

Ffynhonnell: Arolygon ar ôl Etholiadau y Comisiwn Etholiadol (ICM / Kantar TNS)
C. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam y digwyddodd twyll neu gamddefnydd ar _____ yn eich barn chi? Dangos y 4 uchaf

5 Casgliadau

Ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth

5.1 Mae ymgysylltiad y cyhoedd â'r etholiadau yn 2017 a'u hagweddau tuag atynt yn cynnig sawl rheswm i fod yn optimistaidd ynghylch y sefyllfa ddemocrataidd yn y DU. Mae hyder y cyhoedd yn y system yn uchel ar y cyfan a gwelwyd cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd – yn etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon ac etholiadau cynghorau'r Alban yn bennaf. Hefyd, dengys ein canlyniadau gynnydd yn y lefelau ymgysylltiad ymysg grwpiau oedran iau, oedd â llai o ymgysylltiad o gymharu â grwpiau oedran hŷn. Gwelsom lefelau uwch o ymwybyddiaeth a chyfranogiad ymysg pobl dan 34 oed yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn 2017 o gymharu â 2015.

5.2 Fodd bynnag, er bod y newid hwn yn galonogol, nodir hefyd dystiolaeth gref o ddiffyg ymgysylltiad parhaus, yn enwedig ymysg pobl ifanc, gydag etholiadau lleol. Er bod y nifer a bleidleisiodd yn uwch nag etholiadau cyfatebol blaenorol, mae'r bwlch rhwng y nifer a bleidleisiodd mewn etholiadau lleol a chenedlaethol yn fawr o hyd.

5.3 Mae'n amlwg bod ymwybyddiaeth o etholiad yn ysgogi lefelau cyfranogiad a chaiff ei ysgogi ganddo. Mae ein canlyniadau yn dangos gwahaniaeth amlwg yn y graddau yr oedd pobl yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth am yr etholiadau llywodraeth leol o gymharu â'r etholiad cyffredinol ac etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon. Roedd un rhan o dair o'r etholwyr yn credu nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad hyddysg ynghylch pwy i bleidleisio drosto yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai. Dywedodd llai na hanner (47%) eu bod yn credu eu bod yn gwybod llawer neu rywfaint am yr etholiadau maerol Awdurdodau Cyfunol, gyda'r ffigur hwn ond yn codi i 55% ymysg y sawl a ddywedodd eu bod wedi pleidleisio.

5.4 Mae cymhelliant yn bwysig; bydd y sawl sydd am bleidleisio yn ceisio gwybodaeth. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau hefyd yn amlygu gwahaniaeth clir yn y lefelau o ymwybyddiaeth mewn etholiadau lleol, rhwng etholwyr iau a hŷn a rhwng y rhai sydd â mwy a llai o ymgysylltiad etholiadol, gan bwysleisio'r angen am wybodaeth glir sydd ar gael i bawb.

5.5 Roedd y ffordd y cafodd pleidleiswyr wybodaeth am yr etholiadau lleol yn wahanol i'r ffordd y cawsant wybodaeth yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig. Yn absenoldeb yr holl sylw a roddir i etholiad cyffredinol yn y cyfryngau cenedlaethol, bu'n rhaid i'r etholwyr hynny oedd o'r farn eu bod yn gwybod digon am yr etholiadau lleol ddibynnu ar daflenni gan bleidiau gwleidyddol a gwefannau llywodraeth leol neu awdurdodau cyfunol er mwyn cael digon o wybodaeth i fwrw eu pleidlais yn hyderus.

5.6 Mae effaith ymwybyddiaeth ar gyfranogiad yn cyd-fynd â'i effaith ar hyder yn y system etholiadol. Roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn amau y caiff

yr etholiadau lleol eu cynnal yn effeithiol yn credu mai diffyg gwybodaeth oedd yn gyfrifol am hyn. Mae'r rhai sy'n gwybod mwy yn fwy tebygol o bleidleisio ac yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus yn y system. Felly, mae diffyg gwybodaeth yn creu mwy o broblemau o ran cyfranogiad a hyder y cyhoedd.

Y system gofrestru a phleidleisio

5.7 Mae'n galonogol ein bod, unwaith eto, wedi canfod bod y rhan fwyaf o bobl yn credu y caiff etholiadau yn y DU eu cynnal yn effeithiol – gyda hyder hyd yn oed yn uwch ymysg y rhai sy'n pleidleisio. Mae'r mwyafrif helaeth o bleidleiswyr yn fodlon ar y broses o fwrw eu pleidlais. Fodd bynnag, amlygodd ein hymchwil hefyd sawl maes lle rydym yn credu bod angen gwneud rhagor o waith, gan bwysleisio'r angen i ddiwygio'r broses etholiadol yn barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd.

5.8 I ddechrau, er bod y rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn dal i fod yn fodlon ar y system o gofrestru i bleidleisio, maent hefyd yn cefnogi gwelliant. Yng Ngogledd Iwerddon, mae tri chwarter yn cefnogi'r broses o gyflwyno system gofrestru ar-lein, safbwynt a rennir gan y Comisiwn. Ledled y DU, mae 59% yn cefnogi'r syniad y dylai etholwr gael ei gofrestru'n awtomatig pan gaiff rif Yswiriant Gwladol. Mae'r safbwynt hwn hyd yn oed yn fwy amlwg ymysg grwpiau oedran iau. Nododd dwy ran o dair (65%) o bobl rhwng 18 a 34 oed eu bod yn cefnogi cofrestru awtomatig. Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi ein hasesiad o'r system gofrestru etholiadol gan amlygu sawl maes i'w gwella.

5.9 Yn ail, fel y nodwyd yn flaenorol yn ein hadroddiad ar ôl etholiad, gwrthodwyd mwy o bleidleiswyr yn etholiadau cynghorau'r Alban o gymharu ag etholiadau eraill yn 2017. Gwelwyd cryn amrywiaeth hefyd yn lefelau'r papurau pleidleisio a wrthodwyd rhwng wardiau etholiadol gwahanol. Dangosodd canlyniadau ein harolwg bod etholwyr yn yr Alban a bleidleisiodd yn yr etholiadau cynghorau lleol yn fwy tebygol o fod wedi'i chael hi'n anodd cwblhau eu papurau pleidleisio nag etholwyr mewn unrhyw etholiad arall. Mae ein canlyniadau hefyd yn awgrymu bod y gwaith #ReadyToVote a dargedwyd at bobl ifanc 16 a 17 oed yn llwyddiannus wrth wella hyder ymysg y grŵp hwn. Rydym yn gwneud rhagor o waith dadansoddi er mwyn pennu a oes mwy o weithgareddau gwybodaeth i bleidleiswyr wedi'u targedu a fyddai'n werthfawr cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn yr Alban.

5.10 Yn olaf, mae'r canfyddiad o dwyll etholiadol yn broblem mewn etholiadau yn y DU o hyd. Er bod y mwyafrif helaeth o'r farn bod pleidleisio'n broses ddiogel ar y cyfan, mae lefel o bryder o hyd, sy'n uwch ar gyfer etholiad cyffredinol y DU nac ar gyfer yr etholiadau lleol. Gwnaethom nodi ein hargymhelliad ar gyfer cyflwyno gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoddd pleidleisio ym Mhrydain Fawr ddangos dogfen adnabod, gan adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau, mewn nifer o etholiadau lleol ym mis Mai 2018, i dreialu sut y gallai cyflwyno gofyniad i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod weithio a bydd y Comisiwn yn cynnal ac yn cyhoeddi gwerthusiad llawn, annibynnol o'r treialon hyn erbyn haf 2018.

Atodiad A: Methodoleg

Mae'r data a gyflwynir drwy gydol yr adroddiad hwn wedi'u cymryd o'n harolygon ar ôl etholiad a gynhelir ar ôl pob etholiad. Mae hefyd yn cynnwys data o'n hymchwil olrhain ymgyrch, a gynhelir cyn ac ar ôl yr etholiadau ym mis Mai. Ceir gwybodaeth am ein hymchwil o farn y cyhoedd, adroddiadau a data y gellir eu lawrlwytho ar ein [gwefan](#).

Mawrth 2017 – etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon

Gwnaed gwaith maes gan Kantar Millward Brown a gyfwelodd gyfanswm o 1,000 o oedolion 18+ oed ledled Gogledd Iwerddon. Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau dros y ffôn rhwng 3 ac 16 Mawrth 2017.

Gosodwyd rheoliadau cwota ar y sampl ar gyfer oedran, rhyw, grŵp economaidd-gymdeithasol ac ardal. Yna, cafodd pwysoliad ôl arolwg ei gymhwyso er mwyn sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol.

Mai 2017 – Etholiadau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Arolwg ar ôl etholiad

Cynhaliwyd yr arolwg gan ICM a gynhaliodd 2,004 o gyfweiliadau ag oedolion 18+ oed ledled Prydain Fawr rhwng 5 Mai a 5 Mehefin 2017.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau dros y ffôn. Cymhwyswyd cwotâu demograffig a chafodd data eu pwysoli i gyd-fynd â phroffil poblogaeth pob gwlad, gan ystyried y ffaith nad oedd pob ardal ym Mhrydain Fawr yn cynnal etholiad (e.e. nid yw pwysoliad Lloegr yn cynnwys Llundain).

Lloegr: cynhaliwyd 802 o gyfweiliadau yn Lloegr, wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

- 440 mewn ardaloedd a gynhaliodd etholiadau lleol yn ogystal â chwe chyfwelwr yn Doncaster lle cafodd yr etholiadau lleol eu cyfuno ag etholiadau ar gyfer Maer y Ddinas;
- 311 mewn ardaloedd a gynhaliodd etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol am y tro cyntaf
- 40 yn ardal Cyngor Sir Swydd Gaergrawnt, lle cynhaliwyd etholiadau cynghorau sir yn ogystal ag etholiadau ar gyfer Maer Awdurdod Cyfunol Swydd Gaergrawnt a Peterborough;
- 5 mewn ardaloedd lle cynhaliwyd etholiadau ar gyfer maer y ddinas yn unig.

Yr Alban: Cynhaliwyd 751 o gyfweiliadau yn yr Alban: 601 ag oedolion 18+ oed a 150 ymysg pobl ifanc 16 a 17 oed.

Cymru: cynhaliwyd 451 o gyfweiliadau ledled Cymru ag oedolion 18+ oed.

Ymchwil olrhain ymgyrch

Cynhaliwyd ein hymchwil olrhain ymgyrch, a gynhaliwyd gan ICM hefyd, ar-lein. Roedd yr ymchwil yn cynnwys dwy don yng Nghymru a Lloegr, a thair ton yn yr Alban. Lluniwyd samplau cynrychioliadol cenedlaethol o bob cwr o Gymru, yr Alban, ac ardaloedd o Loegr a oedd yn cynnal etholiadau.

Hefyd, ehangwyd prif gynulleidfaoedd targed ein hymgyrch ym mhob gwlad, er mwyn sicrhau bod digon o bobl 16/18 i 34 oed, pobl oedd newydd symud tŷ, pobl oedd yn rhentu eu cartref, myfyrwyr a phobl o grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y sampl i sicrhau y gellid cynnal lefel resymol o ddadansoddiad. Yna, pwysolwyd y data cyffredinol yn ôl i gynrychioli'r ardaloedd oedd yn cynnal etholiadau.

Cynlluniwyd y prosiect i fesul effeithiolrwydd ein gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn etholiadau mis Mai. Yng Nghymru a Lloegr roedd hyn yn canolbwyntio ar gofrestru. Mae'r drydedd don, sef y don ar ôl etholiad, yn yr Alban yn cynrychioli gweithgarwch gwybodaeth i bleidleiswyr am y system bleidleisio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy a gynhaliwyd cyn etholiadau cynghorau'r Alban.

Gwnaed gwaith maes cyn y don, a gynhaliwyd cyn i'r ymgyrch gael ei lansio, rhwng 15 Chwefror a 7 Mawrth. Dechreuodd y gwaith maes ar ôl y don ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio, ar 14 Ebrill yng Nghymru a Lloegr ac ar 17 Ebrill yn yr Alban. Gwnaethom gwblhau'r holl waith maes ar ôl y don cyn Diwrnod yr Etholiad (4 Mai). Cyfanswm yr ymatebwyr yn y ddwy don cyn ac ar ôl yr ymgyrch oedd 9,571. Yn yr Alban, cynhaliwyd ton olaf ar ôl y diwrnod pleidleisio.

Mehefin 2017 – etholiad cyffredinol Senedd y DU

Cynhaliwyd ein gwaith maes ar ôl yr etholiad cyffredinol gan ICM a gyfwelodd â 3,519 o oedolion 18+ oed ledled y Deyrnas Unedig: 1,518 yn Lloegr, 750 yn yr Alban, 750 yng Nghymru, a 501 yng Ngogledd Iwerddon.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau dros y ffôn. Cymhwyswyd cwotâu demograffig a chafodd data eu pwysoli er mwyn cyfateb i broffil poblogaeth pob gwlad.

Atodiad B: Etholiadau a gynhaliwyd yn 2017

Yn 2017, bwriwyd mwy na 44 miliwn o bleidleisiau ledled y DU mewn chwe etholiad gwahanol:

- Etholiadau llywodraeth leol **yng Nghymru, Lloegr a'r Alban**
- Etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol **yn Swydd Gaergrawnt a Peterborough, Manceinion Fwyaf, Dinas-ranbarth Lerpwl, Dyffryn Tees, Gorllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr**
- Etholiad brys Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Etholiad Cyffredinol brys Senedd y DU

Er bod y nifer a bleidleisiodd yn dal i fod yn llai na'r lefelau cyn 2000; yn 2017, roedd yn uwch nag yn yr etholiad cyfatebol diwethaf ym mhob etholiad, ac yn achos yr etholiad cyffredinol, roedd nifer absoliwt y pleidleisiau a fwriwyd ar ei uchaf ers 1992.

Yr etholaeth yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig (46.8 miliwn) oedd y fwyaf erioed ar gyfer etholiad ledled y DU, gyda thua 500,000 yn fwy o bobl ar y gofrestr o gymharu ag etholiad cyffredinol 2015.

Mae 2017 hefyd yn dilyn dwy flynedd o ddigwyddiadau etholiadol arwyddocaol iawn: yn 2015, bwriwyd 30.8 miliwn o bleidleisiau yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig a bwriwyd 19.5 miliwn pellach o bleidleisiau yn etholiadau lleol Lloegr; ac yn 2016, yn Refferendwm yr UE, etholiadau senedd / cynulliad datganoledig, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiadau llywodraeth leol, bwriwyd cyfanswm o 54.7 miliwn o bleidleisiau.

Etholiadau a gynhaliwyd yn 2017

Etholiadau	Dyddiad	System bleidleisio ¹³	Pleidleisiau a fwriwyd	Y nifer a bleidleisiodd
Cynulliad Gogledd Iwerddon	02/03	Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	812,783	64.8%

¹³ Defnyddiwyd tair system bleidleisio wahanol yn yr etholiadau yn 2017; defnyddiwyd Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn etholiadau cynghorau'r Alban ac yn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, cynhaliwyd yr etholiadau maerol Awdurdodau Cyfunol newydd gan ddefnyddio'r system Pleidlais Atodol a defnyddiodd Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru system y Cyntaf i'r Felin.

Llywodraeth leol yn Lloegr (yn cynnwys Maeri Dinas)	04/05	System y Cyntaf i'r Felin Pleidlais Atodol	6,518,202	35.1%
Maerol Awdurdodau Cyfunol		Pleidlais Atodol	1,895,781	27.8%
Cynghorau'r Alban		Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	1,927,149	46.9%
Llywodraeth leol yng Nghymru		System y Cyntaf i'r Felin	895,943	42.0%
Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig	08/06	System y Cyntaf i'r Felin	32,294,920	69.0%
Cyfanswm y pleidleisiau 2017			44,344,778	